Adroddiad Blynyddol 2006 – 2007

Cynnwys

Adroddiad y Cadeirydd 2

Adroddiad Swyddog Mentrau Iaith Cymru 3

Adroddiad Blynyddol Mentrau Iaith Cymru 2006 – 2007 4
Pwyllgor Rheoli Mentrau Iaith Cymru 4
Cynllun Gweithredol 2006-2009 4
Staff cyflogedig Mentrau Iaith Cymru 4
Pwyllgor Staff Mentrau Iaith Cymru 5
Adroddiad Rhanbarth De Orllewin Mentrau Iaith Cymru 2006-2007 6
Aelodaeth 8
Prosiectau Mentrau Iaith Cymru 8
Marchnata 9
Cynrychiolaeth ar Bwyllgorau Allanol 9
Casgliadau Clo 10

Adroddiad y Cadeirydd

Mae'n bleser cael y cyfle yma ar ran y Bwrdd Cyfarwyddwyr i gyflwyno Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn 2006-07.

Yn fy adroddiadau am y dair mlynedd diwethaf cyfeiriais at y ffaith mae ein bwriad oedd i gryfhau'r berthynas rhwng y Mentrau lleol a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr, chwilio am ffynonellau ariannu newydd, cydlynu a chefnogi gwaith y Mentrau, a cyfrannu ar lefel genedlaethol i drafodaethau strategol. Cawsom peth llwyddiant i gyflawni pob nod gyda adnoddau prin, ac y mae ein dyled yn fawr i'r gwirfoddolwyr a staff Menter Iaith Conwy am eu cefnogaeth parod. Yn y cyd-destun yma mae'n werth i ni gofio eto fod Mentrau Iaith Cymru yn sefydliad gwirfoddol dielw, wedi ei sefydlu i gynorthwyo anghenion y Mentrau Iaith lleol i gyd ac felly yn ddibynnol ar eu cefnogaeth, er mwyn i ni lwyddo.

Ers Cyfarfod Blynyddol 2006, fe gafwyd pedwar cyfarfod o'r Bwrdd Rheoli a pum cyfarfod staff. Cafwyd adroddiadau cyson oddiwrth y Mentrau yn dangos brwdfrydedd a dychymyg i godi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a chryfhau'r defnydd ohoni yn eu hardaloedd. Ac fe gafwyd adroddiadau o ddiffyg adnoddau digonol sy'n effeithio ar allu y Mentrau i gynllunio ac i gynnal gwasanaethau dros gyfnod o amser. Fe gafwyd sawl cyfarfod buddiol ar lefel staff a gwirfoddolwyr gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i drafod y sefyllfa yma gan gofio bod y Mentrau yn derbyn grantiau oddiwrth y Bwrdd a sawl ffynhonnell arall, megis Awdurdodau lleol, ynghyd a chronfeydd Ewropeaidd a Cronfa Gymunedol y Loteri ac eraill.

Erbyn hyn mae'r berthynas rhwng y Bwrdd a'r Mentrau yn un cryf ac adeiladol. Hefyd mae'r Mentrau yn gweithio mewn partneriaeth a nifer o gyrff yn y sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat sy'n angenrheidiol er mwyn creu'r cefnogaeth a'r ewyllys da i ffyniant ein gwaith. Yn y cyd-destun yma fe gafwyd ymateb ardderchog ym mhrif wyliau Cymru, a Brwydr y Bandiau mewn perthynas a Radio Cymru. Mae'r berthynas gyda Radio Cymru yn greadigol a masnachol, ac yn denu bandiau i gystadlu, a chynulleidfa i wrando ac ymateb. Ar y noson olaf fe dderbyniwyd dros pedwar mil ar ddeg o bleidleisiau i gymharu a deg mil llynedd. Efallai fod y tystiolaeth yma unwaith eto yn dangos y ffordd ymlaen i'r her o gael ein bobl ifanc i ddefnyddio'r iaith yn eu bywyd bob dydd.

Fe fu paratoi a datblygu sawl prosiect e enghraifft prosiect teithiau cyfnewid rhwng y Mentrau i ddenu mwy o siaradwyr Cymraeg i gael hyfforddiant yn y maes Awyr Agored. Hefyd drwy'r bartneriaeth rhwng MIC, Yr Urdd, Cymdeithas Cymru Ariannin a'r Cyngor Prydeinig, mae'n fwriad i ddenu adnoddau i ddechrau ar y gwaith o ddatblygu a sefydlu Menter Iaith yn y Wladfa. Enghreifftiau ardderchog o weledigaeth a chydweithio gyda mudiadau eraill.

Diolch i aelodau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr a'r Mentrau am eich cefnogaeth dros y flwyddyn yma, gan edrych ymlaen yn bositif i'r dyfodol.

John Llewellyn Thomas
Cadeirydd
Tachwedd 2007

Adroddiad Swyddog Mentrau Iaith Cymru

Mae 2006-2007 wedi bod yn flwyddyn arall prysur i Mentrau Iaith Cymru Cyf ac y Mentrau Iaith, ac mae'r angen am adnoddau ychwanegol er mwyn cyflawni'r gwaith yn dod yn fwyfwy amlwg a phwysig.

Mae'r Mentrau yn parhau i ddatblygu, gyda croes doriad eang o weithgareddau yn cael eu cynnal ar draws Gymru i hybu'r Gymraeg yn lleol, ac mae rhai prosiectau lleol wedi ei trosglwyddo i deithio ar draws Cymru, e.e. Beirdd v. Rapwyr. Mae'r Mentrau yn parhau i drafod syniadau yn aml yn y cyfarfodydd ac mae syniadau ar gyfer prosiectau newydd yn codi yn ystod y cyfleodd rhwydweithio yma.

Mae gweithgaredd egniol ar lefel rhanbarthol hefyd, gyda'r pwyllgorau rhanbarthol yn cyfarfod yn rheolaidd i ddatblygu'r cydweithio rhwng y Mentrau.

Bu rhai newidiadau o ran strwythr y Mentrau yn ystod y cyfnod, gyda Menter Iaith Gwynedd yn llawer llai gweithredol oherwydd nad oedden nhw'n derbyn grant gan Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Hefyd bu i Mentrau Iaith Myrddin cael ei ddiddymu wrth i Fentrau Sir Gar ail strwythuro. Nawr mae tair Menter ar draws y sir.

Does dim digon o amser i swyddog Mentrau Iaith Cymru gwblhau yr holl waith sydd yn amlwg angen ei gyflawni i'r Cwmni ac i gefnogi gwaith y Mentrau, ond teimlaf fod yna groes doriad da o dasgau yn cael eu gwneud gan Mentrau Iaith Cymru.

Rhestr amlinellol o waith swyddog Mentrau Iaith Cymru:

- Gwaith gweinyddol: e-bostio/ffônio/llythyru
- Rhannu gwybodaeth a'r Mentrau Iaith
- Trefnu cyfarfodydd a gwestai
- Paratoi a dosbarthu cofnodion
- Marchnata – datblygu stondin, gweithgareddau a deunydd marchnata
- Cydlynu prosiectau Mentrau Iaith Cymru
- Ymateb i bapurau ymgynghorol
- Llythyru mudiadau a sefydliadau
- Datblygu prosiectau amrywiol e.e. Cynllun Cyfnewid
- Ymchwil ffynonellau grantiau a rhannu'r gwybodaeth

Rwy'n obeithiol fod modd i Mentrau Iaith Cymru sicrhau adnoddau ychwanegol i Mentrau Iaith Cymru Cyf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2007-2008, fydd yn galluogi'r Cwmni wireddu'r potensial i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn effeithiol drwy Gymru gyfan, yn ogystal a medru cynnig cefnogaeth ychwanegol i'r Mentrau Iaith. Felly edrychaf ymlaen i'r dyfodol gyda gobaith bydd Mentrau Iaith Cymru yn tyfu o nerth i nerth gyda cefnogaeth y Mentrau Iaith.

Iwan G Williams
Swyddog Mentrau Iaith Cymru
Hydref 2007

Adroddiad Blynyddol Mentrau Iaith Cymru 2006 – 2007

Mae Mentrau Iaith Cymru yn bodoli i hyrwyddo'r Gymraeg yng nghymunedau Cymru.

Mae'r Mentrau Iaith yn unigryw i Gymru, yn gyrff lleol o wirfoddolwyr sy'n cydweithio gyda'u swyddogion cyflogedig i gynnal ystod eang ac amrywiol o weithgareddau er mwyn codi'r ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a chryfhau'r defnydd ohoni yn eu hardaloedd. Ceir 25 Menter ar hyn o bryd, yn gwasanaethu rhan helaeth o Gymru - twf sylweddol ers sefydlu'r fenter gyntaf yn 1991.

Pwyllgor Rheoli Mentrau Iaith Cymru

Cynhaliwyd 4 cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli yn ystod y flwyddyn ariannol 2006-2007 o dan gadeiryddiaeth John Llewellyn Thomas:

30 Mai 2006
30 Medi 2006
18 Tachwedd 2006
17 Chwefror 2007

Bu cefnogaeth parod yr aelodau yn gymorth mawr o safbwynt cwblhau tasgau Mentrau Iaith Cymru Cyf. Rhaid diolch yn arbennig i'r swyddogion canlynol am ysgwyddo'r baich pennaf yn ystod y flwyddyn:-

Cadeirydd - John Llewellyn Thomas
Is-Gadeirydd - T Alun V Evans
Ysgrifennydd - Cefin Campbell & Iwan Williams (ers Hydref 2006)
Trysorydd - Tom Williams & Arwyn Jones (ers Chwefror 2007)

Diolch yn fawr iawn i Cefin Campbell a Tom Williams am eu holl waith gyda'u Mentrau Iaith lleol a Mentrau Iaith Cymru dros y blynyddoedd diweddar.

Cynllun Gweithredol 2006-2009

Yn dilyn ymgynghoriad gyda staff a gwirfoddolwyr y Mentrau ar gyfer Cynllun Gweithredol 2003-2006, fe'i ddiwygiwyd ar gyfer cyfnod 2006-2009 gan ddiweddaru'r meysydd, gweithredoedd a thargedau.

Staff cyflogedig Mentrau Iaith Cymru

Mae swyddog Mentrau Iaith Cymru yn gweithio 15 awr yr wythnos drwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda Menter Iaith Conwy.
Prif ddyletswyddau'r swyddog yw ymgymryd â threfnu a gweinyddu cyfarfodydd, gwaith gweinyddol, datblygu prosiectau, ceisio am arian a bod yn bwynt cyswllt i Mentrau Iaith Cymru ac ar gyfer y mentrau unigol.

Pwyllgor Staff Mentrau Iaith Cymru

Cynhaliwyd 5 cyfarfod staff yn ystod y flwyddyn ariannol 2006-2007 ar

12 Ebrill 2006
7 Gorffennaf 2006
6 Hydref 2006
8 Rhagfyr 2006
16 Mawrth 2007

Y swyddogion canlynol fu'n gweithredu ar ran y staff yn ystod y flwyddyn ariannol:

Meirion Llewelyn Davies (Cadeirydd)
Sian Lewis (Is-Gadeirydd)
Iwan Evans & Rhian Owens (Cadeirydd Rhanbarth y De-orllewin)
Sion Wynne (Cadeirydd Rhanbarth y Gogledd)
Lis McLean (Cadeirydd Rhanbarth y De-ddwyrain)

Yn ogystal â chyfarfodydd cenedlaethol chwarterol cynhaliwyd cyfarfodydd rhanbarthol rheolaidd er mwyn trafod materion mwy lleol eu hoblygiadau. Hefyd sefydlwyd gweithgorau i drafod pynciau penodol megis Brwydr y Bandiau.
Bu hefyd gyfarfodydd Swyddogion Ieuenctid ar lefel rhanbarthol yn achlysurol i drafod eu gwaith penodol nhw a datblygu syniadau yn arbennig i bobol ifanc.

Yn ogystal â thrafod materion cyffredinol yn ymwneud â gwaith y Mentrau a rhannu profiadau a chyfnewid syniadau, manteisiwyd ar sawl cyfle i wahodd siaradwyr gwadd i'r cyfarfodydd er mwyn darganfod mwy am gynlluniau a gwaith mudiadau a chyrff eraill, a gweld pa gyfleoedd cydweithio posib sydd yn codi.

Yn ystod y flwyddyn gwahoddwyd y canlynol i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor Staff:

Aled Davies – Ieuenctid Cambria
Toni Schiavoni – Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol Cymru
Mererid Lewid ac Anna Skeels – Achub y Plant
Beccy Leach ac Afryl Glynne – Big Welsh Challenge
John Llewelyn Thomas – Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Mentrau Iaith Cymru

Diolch i'r gwestai am fynychu'r cyfarfodydd, bu'n fuddiol iawn i Mentrau Iaith Cymru.

Adroddiad Rhanbarth De Orllewin Mentrau Iaith Cymru 2006-2007

Ar ddechrau'r flwyddyn daeth cyfnod Dilwyn Jones, Cered i ben fel Cadeirydd Pwyllgor Rhanbarth y De-Orllewin ac i gymryd ei le yn y gadair daeth Iwan Evans, Mentrau Iaith Myrddin. Byr oedd cyfnod Iwan yn y gadair o ganlyniad i'w ymddiswyddiad yn ystod yr Haf ac o ganlyniad i hynny penodwyd Rhian Owens i fod yn gyfrifol am gynrychioli'r Rhanbarth.
Mae gwaith y flwyddyn wedi canolbwyntio yn bennaf ar y prosiectau / gweithgareddau / pynciau trafod canlynol:

- **Brwydyr y Bandie** – defnyddiwyd cyfarfodydd Rhanbarthol ar ddechrau'r flwyddyn er mwyn trafod a chynllunio'r Gystadleuaeth flynyddol ac yn dilyn gweld nifer o fandiau yn cystadlu eleni eto, trafodwyd y posibilrwydd o ddefnyddio'r bandiau yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau eu bod nhw'n parhau i berfformio a hynny thrwy gyfrwng y Gymraeg. Lluniwyd bas data o'r bandiau hynny ar gyfer y mentrau ac mae sawl gig lleol wedi cymryd lle.
- **Cymraeg yn Gyntaf** – bu'r cyfarfodydd bod yn sail ar gyfer trafod ymgyrch Cymraeg yn Gyntaf ar lefel leol gan edrych ar gyfleoedd i gydweithio rhwng y siroedd.
- **Eisteddfod yr Urdd Sir Gar –** cafwyd presenoldeb amlwg y mentrau yn Eisteddfod Yr Urdd yn Sir Gar a threuliwyd tipyn o amser yn trefnu gweithgareddau amrywiol ar gyfer yr wythnos.
- **Cyd-gyfieiriant** – Yn dilyn clywed gan fentrau'r Gogledd ynglyn â awydd y Bwrdd i gyflwyno Cais i'r Gronfa Cyd-gyfeiriant, gwahoddwyd Rhodri Llwyd Morgan a Laura Hughes o Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gyflwyno eu syniadau ac i drafod meysydd penodol lle y byddai modd i'r mentrau elwa o'r cynlluniau. Mae'r pwnc hwn yn fater trafod o hyd.
- **Sector Preifat** – Yn dilyn sawl trafodaeth a chyflwyniad gan Rhidian Jones, Adran Sector Preifat Bwrdd yr Iaith Gymraeg, penderfynwyd sefydlu Is-Bwyllgor ar gyfer trafod prosiectau penodol yn ymwneud â'r maes Sector Preifat. Bydd y Pwyllgor hwn yn cwrdd am y tro cyntaf ym Mis Ionawr a'r bwriad yw cael cymorth y Bwrdd i arwain ar brosiectau y byddai modd i Swyddogion Sector Preifat/Maes y Mentrau gweithredu yn eu hardaloedd.
- **Cynllun Ieuenctid** – Yn dilyn cais ariannol lwyddiannus a gyflwynwyd gan MIC i Gronfa Stadiwm y Mileniwm, mae'r Pwyllgor eisoes wedi dechrau ar y gwaith o drefnu teithiau cyfnewid ar gyfer Ieuenctid o'r siroedd gwahanol. Bydd rhaglen arfaethedig yn cael ei chyflwyno mewn cyfarfod ym mis Ionawr.

Rhian Owens
Cadeirydd Rhanbarth y De Orllewin

Adroddiad Gwaith Rhanbarth y Gogledd Mentrau Iaith Cymru 2006-2007

Yn ystod y flwyddyn parhawyd a'r cydweithio da rhwng holl Fentrau Iaith y Gogledd. Yn dilyn diwedd cyfnod Meirion Davies fel Cadeirydd y rhanbarth etholwyd Siôn Wynne I fod yn Gadeirydd. Yn anffodus collwyd Menter Iaith Gwynedd ar ddechrau'r cyfnod hwn.

Ar gyfer y flwyddyn cafodd sawl prosiect allweddol ei weithredu ar draws y Rhanbarth:

Brwydr y Bandiau - unwaith eto eleni cafwyd cydweithio ar y prosiect hwn gyda nifer dda o bobl ifanc yn mynegi diddordeb yn yr ornest ar draws y Rhanbarth. Yn sgil y frwydr rhoddwyd cyfle i sawl band fynd ymlaen i berfformio mewn gigs mewn sawl lleoliad ar draws y Sir gan arwain at ragor o frwdfrydedd yn y Sin Roc Gymraeg ymhlith y bobl ifanc.

- **Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint** - unwaith eto eleni cafwyd cydweithio rhwng Mentrau'r Gogledd er mwyn sicrhau presenoldeb amlwg a llu o weithgareddau ar y maes yn ystod ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Wyddgrug, Cafwyd ystod eang o berfformwyr o ar draws y rhanbarth a thu hwnt yn perfformio ac arddangos eu doniau ar lwyfan y Mentrau yn ogystal ag yn y stondin.

- **Cyd-gyfieiriant** - cafwyd trafodaethau rhwng rhai o Fentrau'r Gogledd a'r Bwrdd I drafod y cynllun hwn. Parheir I drafod y mater ymhlith gwahanol Fentrau'r rhanbarth.

- **Dathlu Cymru** - unwaith eto eleni penderfynodd holl Fentrau'r rhanbarth gydweithio i gynhyrchu 'Blwyddiadur 2007' ar gyfer eu dosbarthu ar draws y Rhanbarth yn dilyn llwyddiant y syniad yn 2005-06. Eleni am y tro cyntaf penderfynwyd gwahodd gwmnïau i noddi'r prosiect gan osod man hysbysebu ar gyfer hyrwyddo rhifau ffôn Cymraeg. Gyda diolch arbennig I Cerian o Fenter Iaith Sir Ddinbych am gydlynu'r holl waith.

- **Gwefan mentrauiaith-gogledd.com** - yn sgil penderfyniad Bwrdd yr Iaith Gymraeg I ddod a'r wefan genedlaethol ar ei ffurf bresennol i ben penderfynodd Fentrau Iaith y Gogledd gydweithio'n rhanbarthol i ddatblygu gwefan o'r newydd. Cynhyrchwyd hefyd daflenni arbennig yn hyrwyddo'r wefan. Lansiwyd y wefan yn swyddogol gan yr Athro Colin Williams yn Llanrwst ym mis Medi 2007. Gyda diolch arbennig I Fenter Môn a Menter Iaith Maldwyn am eu holl waith gyda'r wefan hwn.

- **Ymgyrch Addysg 'Cymraeg - Kids Soak it Up'** - fel rhan o'r ymgyrch yn 2007 cafwyd cydweithio ar sawl digwyddiad ac i drafod syniadau rhwng Mentrau Iaith Sir Ddinbych, Maelor a Sir y Fflint.

Sion Wynne
Cadeirydd Rhanbarth y Gogledd

Aelodaeth

Cyfrannodd 21 Menter dâl aelodaeth i Mentrau Iaith Cymru Cyf yn ystod y flwyddyn ariannol 2006-2007, sef:

Abertawe
Sir Benfro
Bro Ogwr
Brycheiniog
Caerdydd
Caerffili
Castell Nedd Port Talbot
Ceredigion
Conwy
Dinbych
Fflint
Maelor
Maldwyn
Merthyr Tudful
Rhondda Cynon Taf
Mentrau Iaith Myrddin
Bro Dinefwr
Bro Teifi
Dyffryn Aman
Llanelli
Taf Myrddin

Diolch i'r holl fentrau am eu cydweithrediad parod drwy'r flwyddyn ac am wneud Mentrau Iaith Cymru Cyf. yn llwyddiant.

Prosiectau Mentrau Iaith Cymru

Mae'r Pwyllgor Staff a swyddog Mentrau Iaith Cymru wedi bod yn datblygu prosiectau cenedlaethol a rhanbarthol. Mae prosiectau megis Beirdd v. Rapwyr wedi bod yn llwyddiannus a prosiectau fel Cynllun Cyfnewid ieuenctid yn cael eu datblygu.

Brwydr y Bandiau

Cynhaliwyd cystadleuaeth cenedlaethol llwyddiannus ar y cyd gyda rhaglen C2 Radio Cymru. Roedd cynnydd enfawr yn nifer y bandiau a fu'n cystadlu a'r cynulleidfaoedd o gymharu a'r cystadleuaethau blaenorol. Bydd yr enillwyr yn rhyddhau CD, perfformio cyfres o gigs gyda Mentrau Iaith Cymru a cynhyrchu fideo ar gyfer rhaglen Bandit. Gobeithir i'r berthynas gyda rhaglen C2 barhau er mwyn ysgogi mwy o fandiau Cymraeg fod yn rhan o'r diwydiant cerddorol yng Nghymru.

Beirdd v. Rapwyr

Bu Mentrau Iaith Cymru yn llwyddiannus yn denu arian ar gyfer y prosiect gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Yr Academi. Bu taith ar draws Cymru ac mae'r digwyddiad ar gael i bobol fwcio drwy Mentrau Iaith Cymru os ydyn nhw am gynnal digwyddiad yn eu cymunedau lleol.

Gwyliau Cymraeg

Nid oes swyddog Gwyliau Cymraeg yn gweithio ar y prosiect ar hyn o bryd gan fod y cyllid wedi dod i ben. Mae Swyddogion Menter Iaith Conwy yn parhau i sicrhau fod ymholiadau yn derbyn ymateb a bod gwasanaeth dal ar gael ar gyfer y prosiect.

Offer

Mae gan Mentrau Iaith Cymru adnoddau ar gael i'r mentrau ddefnyddio - gliniadur, taflunydd, peiriant bathodynnau, deunyddiau arddangos megis pop-ups a taflenni Mentrau Iaith Cymru.

Marchnata

Manteisiwyd unwaith eto ar y cyfle i godi proffil Mentrau Iaith Cymru yn ein Gŵyliau cenedlaethol.

Cafwyd stondin yn Eisteddfod yr Urdd yn Sir Ddinbych gyda llu o weithgareddau ac adloniant ar y stondin.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe roedd stondin, ac hefyd gofynnodd yr Eisteddfod i Mentrau Iaith Cymru drefnu adloniant ar lwyfan perfformio am yr ail flwyddyn yn olynol. Fe fu yn llwyddiannus iawn, gyda llawer o weithgareddau yn amrywio o gerddoriaeth gyfoes i weithdai jiwdo. Llwyddwyd i ddenu nifer fawr o bobl o bob oed i ymddiddori yng ngweithgareddau ar y llwyfan ac yng ngwaith y Mentrau.

Yn y Sioe Amaethyddol parhawyd â threfniant lle rhannwyd y stondin gyda Golwg a TWF. Unwaith eto trefnwyd llawer o weithgareddau hwyliog o gwmpas y stondin gan gynnwys cynhyrchu bathodynnau, sesiynau canu ac adrodd storïau.

Diolch mawr i'r Mentrau lleol am eu holl waith ar gyfer y digwyddiadau uchod.

Cynrychiolaeth ar Bwyllgorau Allanol

Y mae cynrychiolaeth o Mentrau Iaith Cymru yn aelodau o amryw bwyllgorau sydd wedi eu sefydlu gan gyrff a mudiadau eraill. Y mae hyn yn rhoi'r cyfle i'r Mentrau feithrin perthynas gyda chyrff sydd yn gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo polisïau mewn meysydd sydd yn ymwneud â'r Gymraeg ac adfywio cymunedol a thrwy hynny godi proffil y gwaith a gyflawnir gan y Mentrau. Ceir cynrychiolaeth ar y cyrff canlynol:-

Pwyllgor Partneriaid Bwrdd Yr Iaith Gymraeg
Fforwm Iaith Genedlaethol
Cyngor Partneriaeth Sector Gwirfoddol

Ar lefel sirol y mae'r Mentrau Iaith mewn rhai ardaloedd yn cael eu cynrychioli ar Bartneriaethau Plant, Partneriaethau Pobl Ifainc a Phwyllgorau Rheoli Cynghorau Gwirfoddoli sirol ac eraill.

Casgliadau Clo

Hoffem bwysleisio mai'r bwriad yw parhau i ddatblygu gallu Cwmni Mentrau Iaith Cymru i gael effaith positif ar yr iaith Gymraeg yng nghymunedau Cymru drwy gydweithio gyda'r Mentrau Iaith yn ogystal a dylanwadu ar benderfyniadau sydd yn effeithio ar yr iaith Gymraeg.